



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2009 Rhif 1511 (Cy.147)

2009 No. 1511 (W.147)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol
(Swyddogaethau a Gyfarwyddir)
(Cymru) 2009**

**The Local Health Boards (Directed
Functions) (Wales) Regulations
2009**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r swyddogaethau a gyfarwyddir sy'n perthyn i Fyrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd ar gyfer pob ardal yng Nghymru yn unol ag adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) (*gweler* O.S. 2003/148 (Cy.18) ac O.S. 2009/778 (Cy.66)) (rheoliad 4 a'r Atodlen). Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yw'r Byrddau Iechyd Lleol.

These Regulations specify the directed functions of Local Health Boards established for all areas of Wales pursuant to section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42) (*see* S.I. 2003/148 (W.18) and S.I. 2009/778 (W.66)) (regulation 4 and the Schedule). The Local Health Boards are Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, Aneurin Bevan Local Health Board, Betsi Cadwaladr University Local Health Board, Cardiff and Vale University Local Health Board, Cwm Taf Local Health Board, Hywel Dda Local Health Board and Powys Teaching Local Health Board.

Mae Byrddau Iechyd Lleol yn gyfrifol am bersonau sy'n preswyl fel arfer yn eu hardal (rheoliad 2(2)). Mae Bwrdd Iechyd Lleol yn cadw'i gyfrifoldeb dros categorïau penodol o blant sy'n dod o'i ardal ond a osodir wedyn y tu allan i'r ardal ac y byddai Bwrdd Iechyd Lleol arall yn dod yn gyfrifol amdanynt fel arall yn rhinwedd y ffaith bod y plant yn preswyl fel arfer yn ei ardal. Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, plant sy'n gadael gofal awdurdodau lleol, plant sy'n preswyl mewn ysgol a enwir yn eu datganiad o anghenion addysgol arbennig a phlant a chanddynt anghenion iechyd sy'n parhau ac sydd, am unrhyw un neu rai o'r rhesymau hynny, yn cael eu gosod y tu allan i'w hardal yw'r plant o dan sylw (rheoliad 3).

Local Health Boards are responsible for persons usually resident in their area (regulation 2(2)). A Local Health Board maintains its responsibility for certain categories of children who come from their area but are then placed out of area and who would otherwise become the responsibility of another Local Health Board by virtue of being usually resident in that area. The children concerned are children looked after by local authorities, local authority care leavers, children resident at a school named in their statement of special educational needs and children with ongoing health needs and who, for any of those reasons are placed out of their area (regulation 3).

O 1 Hydref 2009 mae saith Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac maent yn arfer y swyddogaethau a oedd yn cael eu harfer yn flaenorol gan ddau ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol ar 30 Medi 2009 ynghyd â

From 1 October 2009 seven Local Health Boards are responsible for the provision of health services in Wales and exercise the functions previously exercised by twenty two Local Health Boards on 30 September 2009, together with other functions of the Welsh

swyddogaethau eraill sy'n perthyn i Weinidogion Cymru gan gynnwys swyddogaethau penodol a oedd yn cael eu harfer gan Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Ar 1 Hydref 2009 diddymir saith Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a oedd yn cyflenwi gwasanaethau ysbyty. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwylans Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre yn parhau mewn bodolaeth.

Diddymwyd Awdurdodau Iechyd yng Nghymru yn effeithiol o 1 Ebrill 2003. O dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) gwnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/813 (Cy.98)) a oedd yn darparu bod holl swyddogaethau Awdurdodau Iechyd yng Nghymru, o 1 Ebrill 2003, wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod pob Awdurdod Iechyd o'r fath wedi ei ddiddymu.

Daeth Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150 (Cy.20)) i rym ar 1 Ebrill 2003. Gwnaed swyddogaethau Awdurdodau Iechyd yng Nghymru a oedd wedi eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy (gyda rhai eithriadau penodol) gan (yn hytrach na chael eu trosglwyddo i) Fyrddau Iechyd Lleol. Ar 1 Ebrill 2003 roedd pob cyfeiriad at Awdurdodau Iechyd yng Nghymru, i'r graddau yr oeddent yn ymwneud â swyddogaethau Awdurdodau Iechyd, yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru, er na chawsant eu diwygio yn nhestun y ddeddfwriaeth.

Roedd darpariaethau niferus yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49) y datganwyd oddi tanynt fod swyddogaethau'n arferadwy gan Awdurdodau Iechyd er nad oedd mwyach unrhyw Awdurdodau Iechyd yn bodoli, ac nad oedd pŵer i greu rhai newydd. Oherwydd hyn, pan gafodd deddfwriaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ei chydgrynhoi, cafodd effaith Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 ei deddfu gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer trin swyddogaethau a oedd yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol yn rhinwedd Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 fel swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol at ddibenion y Ddeddf. Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol yn benodol i arfer y swyddogaethau hynny er eu bod yn ymddangos fel swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol ar wyneb y Ddeddf gan mai swyddogaethau Gweinidogion Cymru ydynt.

Ministers including certain functions which were exercised by National Health Service Trusts. On 1 October 2009 seven National Health Service Trusts which delivered hospital services are dissolved. The Welsh Ambulance Services National Health Service Trust and Velindre National Health Service Trust remain in existence.

Health Authorities in Wales were abolished with effect from 1 April 2003. Under section 27 of the Government of Wales Act 1998 (c.38) the National Assembly for Wales made the Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/813 (W.98)) which provided that from 1 April 2003 all functions of Health Authorities in Wales were transferred to the National Assembly for Wales and that all such Health Authorities were abolished.

The Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/150 (W.20)) came into force on 1 April 2003. The functions of Health Authorities in Wales which had been transferred to the National Assembly for Wales were (with some specified exceptions) made exercisable by (rather than being transferred to) Local Health Boards. On 1 April 2003 all references to Health Authorities in Wales, insofar as they related to Health Authority functions, were construed as references to the National Assembly for Wales, although not textually amended in legislation.

There were numerous provisions in the National Health Service Act 1977 (c.49) under which functions were stated to be exercisable by Health Authorities even though there were no longer any Health Authorities in existence and no power for any new ones to be created. In light of this, when National Health Service legislation was consolidated, the National Health Service (Wales) Act 2006 ("the Act") enacted the effect of the Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003. The Act provides for functions which were exercisable by Local Health Boards by virtue of the Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003 to be treated as functions of Local Health Boards for the purposes of the Act. These Regulations specifically direct Local Health Boards to exercise those functions despite appearing as Local Health Board functions on the face of the Act because they are functions of the Welsh Ministers.

Mae Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43) yn darparu nad oes dim yn y Ddeddf yn rhinwedd Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru i arfer y swyddogaethau o dan y Rheoliadau hynny ac mae wedi cadw'r pŵer i ddirymu'r Rheoliadau hynny. Mae Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 yn cael eu dirymu ar 1 Hydref 2009 (rheoliad 6) ac adlewyrchir hyn mewn diwygiadau canlyniadol (rheoliad 7).

Diwygiwyd Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43) ("Deddf 2003") er mwyn cynnwys darpariaethau sydd bellach yn y Ddeddf. Cafodd diwygiadau Ddeddf 2003 yr effaith, yn rhannol, o ddiwygio testun cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd yn narpariaethau perthnasol Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977. Mewnosodwyd cyfeiriadau at Fyrddau Iechyd Lleol gan Ddeddf 2003 mewn cyfnod pan oedd Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 wedi dod i rym a diystyrwyd effaith y Rheoliadau hynny wrth ymdrin â chyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd. Dylai cyfeiriadau yn Neddf 2003 fod wedi bod yn gyfeiriadau at swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid at swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol. Felly, cyfarwyddir Byrddau Iechyd Lleol i arfer y cyfryw swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn oherwydd mai swyddogaethau Gweinidogion Cymru ydynt er eu bod yn ymddangos ar wyneb y ddeddfwriaeth fel swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol.

Rhoddir swyddogaethau penodol i Fyrddau Iechyd Lleol y tu allan i'r Rheoliadau hyn. Gwnaed Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007 (O.S. 2007/961 (Cy.85)) yn unol ag adran 75 o Ddeddf Iechyd 2006 (p.28) i newid cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd yn gyfeiriadau at Fyrddau Iechyd Lleol mewn deddfwriaeth nad yw'n ymwneud ag iechyd er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod swyddogaethau penodol a oedd yn cael eu harfer yn flaenorol gan Awdurdodau Iechyd yn cael eu harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol. Mae Byrddau Iechyd Lleol hefyd yn parhau i arfer swyddogaethau a roddwyd yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd Lleol mewn deddfwriaeth fel y rhai sydd yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15), yn Neddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17) a Deddf Iechyd 2006 a darpariaethau yn y Ddeddf a fewnosodwyd gan y Deddfau hynny.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The National Health Service (Consequential Provisions) Act 2006 (c.43) provides that nothing in the Act by virtue of the Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003 affects the power of the Welsh Ministers to exercise the functions under those Regulations and preserves the power to revoke those Regulations. The Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003 are revoked on 1 October 2009 (regulation 6) and this is reflected in consequential amendments (regulation 7).

The Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (c.43) ("the 2003 Act") amended the National Health Service Act 1977 to include provisions that are now in the Act. The 2003 Act amendments had effect, in part, as textual amendments to references to Health Authorities in the relevant provisions of the National Health Service Act 1977. References to Local Health Boards were inserted by the 2003 Act at a stage when the Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003 had come into force and the effect of those Regulations was disregarded when dealing with references to Health Authorities. References in the 2003 Act should have been to National Assembly for Wales functions and not to Local Health Board functions. Therefore, Local Health Boards are directed to exercise such functions under these Regulations because despite appearing as Local Health Board functions on the face of legislation, they are functions of the Welsh Ministers.

Certain functions are conferred on Local Health Boards outside of these Regulations. The References to Health Authorities Order 2007 (S.I 2007/961 (W.85)) was made pursuant to section 75 of the Health Act 2006 (c.28) to change references to Health Authorities to references to Local Health Boards in non-health related legislation to reflect the fact that certain functions previously exercised by Health Authorities are exercised by Local Health Boards. Local Health Boards also continue to exercise functions directly conferred on Local Health Boards in legislation such as those in the Health and Social Care Act 2001 (c.15), the National Health Service Reform and Health Care Professions Act 2002 (c.17) and the Health Act 2006 and provisions in the Act inserted by those Acts.

A regulatory impact assessment has been prepared in connection with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2009 Rhif 1511 (Cy.147)

2009 No. 1511 (W.147)

**Y GWASANAETH IECHYD
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH
SERVICE, WALES**

**Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol
(Swyddogaethau a Gyfarwyddir)
(Cymru) 2009**

**The Local Health Boards (Directed
Functions) (Wales) Regulations
2009**

Gwnaed 18 Mehefin 2009

Made 18 June 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 19 Mehefin 2009

*Laid before the National
Assembly for Wales* 19 June 2009

Yn dod i rym 1 Hydref 2009

Coming into force 1 October 2009

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12, 203(9) a (10) a 204 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred on them by sections 12, 203(9) and (10) and 204 of the National Health Service (Wales) Act 2006(1) make the following Regulations:

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau a Gyfarwyddir) (Cymru) 2009.

1.—(1) The title of these Regulations is the Local Health Boards (Directed Functions) (Wales) Regulations 2009.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) These Regulations come into force on 1 October 2009.

Dehongli

Interpretation

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

2.—(1) In these Regulations —

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd yn unol ag adran 11(2) o'r Ddeddf(2);

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

ystyr "Byrddau Iechyd Lleol blaenorol" ("*former Local Health Boards*") yw'r ddau Fwrdd Iechyd Lleol ar hugain a sefydlwyd ar 10 Chwefror 2003 gan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003(3);

"the 1989 Act" ("*Deddf 1989*") means the Children Act 1989(2);

"continuing care" ("*gofal parhaus*") means care provided over an extended period of time to a person to meet physical or mental health needs which have arisen as a result of illness;

(1) 2006 p.42.

(1) 2006 c.42.

(2) Sefydlwyd Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/148 (Cy.18)) a sefydlwyd BILI Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, BILI Aneurin Bevan, BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr, BILI Prifysgol Caerdydd a'r Fro, BILI Cwm Taf a BILI Hywel Dda o dan Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009 (O.S. 2009/778 (Cy. 66)).

(2) 1989 c.41.

(3) O.S. 2003/148 (Cy.18).

ystyr "Deddf 1989" ("*the 1989 Act*") yw Deddf Plant 1989(1);

ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw 1 Hydref 2009;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gofal parhaus" ("*continuing care*") yw gofal a ddarperir dros gyfnod estynedig o amser i berson er mwyn bodloni anghenion iechyd corfforol neu feddyliol sydd wedi digwydd o ganlyniad i salwch;

mae'r ymadrodd "Gorchymyn BIL1" i'w ddehongli'n unol â'r ymadrodd "LHB Order" yn adran 11(2) o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau deintyddol sylfaenol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "primary dental services" yn adran 56 o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau fferyllol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "pharmaceutical services" yn adran 80(8) o'r Ddeddf;

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau meddygol sylfaenol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "primary medical services" yn adran 41 o'r Ddeddf; ac

mae i'r ymadrodd "gwasanaethau offthalmig cyffredinol" yr ystyr sydd i'r ymadrodd "general ophthalmic services" yn adran 71(10) o'r Ddeddf.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ac yn ddarostyngedig i reoliad 3, y personau sy'n preswyllo fel arfer yn yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol wedi ei sefydlu ar ei chyfer yw'r personau y mae Bwrdd Iechyd Lleol yn gyfrifol amdanynt mewn unrhyw flwyddyn.

(3) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd y gall Gweinidogion Cymru ei roi o ran unrhyw achos penodol neu ddsbarthau o achos, os oes amheuaeth o ran ble y mae person yn preswyllo fel arfer at ddibenion paragraff (2) —

- (a) mae'r person i'w drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y cyfeiriad a roddwyd ganddo, yn gyfeiriad y mae'r person fel arfer yn preswyllo ynddo, i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer;
- (b) os nad yw'r person yn rhoi unrhyw gyfeiriad o'r fath, mae ef i'w drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y cyfeiriad y mae'n ei roi, yn gyfeiriad mwyaf diweddar y person, i'r person neu'r corff sy'n darparu gwasanaethau ar ei gyfer;

(1) 1989 p.41.

"former Local Health Boards" ("*Byrddau Iechyd Lleol blaenorol*") means the twenty two Local Health Boards which were established on 10 February 2003 by the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003(1);

"general ophthalmic services" ("*gwasanaethau offthalmig cyffredinol*") has the same meaning as in section 71(10) of the Act;

"Local Health Board" ("*Bwrdd Iechyd Lleol*") means a Local Health Board established in accordance with section 11(2) of the Act(2);

"LHB Order" ("*Gorchymyn BIL1*") is to be construed in accordance with section 11(2) of the Act;

"pharmaceutical services" ("*gwasanaethau fferyllol*") has the same meaning as in section 80(8) of the Act;

"primary dental services" ("*gwasanaethau deintyddol sylfaenol*") has the same meaning as in section 56 of the Act;

"primary medical services" ("*gwasanaethau meddygol sylfaenol*") has the same meaning as in section 41 of the Act; and

"the relevant date" ("*y dyddiad perthnasol*") means 1 October 2009.

(2) For the purposes of these Regulations, and subject to regulation 3, the persons for whom a Local Health Board is responsible in any year are the persons usually resident in the area for which the Local Health Board is established.

(3) Subject to any direction which the Welsh Ministers may give as to any particular case or classes of case, if there is doubt as to where a person is usually resident for the purposes of paragraph (2) —

- (a) the person is to be treated as usually resident at the address given by him or her to the person or body providing him or her with services, as being that at which the person usually resides;
- (b) where the person gives no such address, he or she is to be treated as usually resident at the address which he or she gives to the person or body providing him or her with services, as being the person's most recent address;

(1) S.I. 2003/148 (W.18).

(2) Powys Teaching LHB was established under the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/148 (W.18)) and Abertawe Bro Morgannwg University LHB, Aneurin Bevan LHB, Betsi Cadwaladr University LHB, Cardiff and Vale University LHB, Cwm Taf LHB and Hywel Dda LHB were established under the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009 (S.I. 2009/778 (W.66)).

- (c) os na ellir cadarnhau cyfeiriad arferol y person o dan is-baragraffau (a) a (b) uchod, mae ef i gael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn yr ardal y mae'r person yn bresennol ynddi.

Eithriad i reoliad 2(2)

3.—(1) Mae Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol yn parhau i fod yn gyfrifol am y personau a bennir ym mharagraff (3) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn yr ardal y sefydlwyd ef ar ei chyfer, yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff (2).

(2) Dyma'r amgylchiadau—

(a) ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2007

- (i) bod y Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol wedi gwneud trefniant wrth arfer ei swyddogaethau, neu
- (ii) bod awdurdod lleol wedi gwneud trefniant

y darperir gwasanaethau, yn rhinwedd y trefniant hwnnw, ar gyfer person y mae paragraff (3) yn gymwys iddo, sy'n golygu neu'n cynnwys darparu llety sydd wedi ei leoli yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol arall neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol; a

(b) bod y person drwy hynny'n byw yn y llety.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys

(a) i berson sydd o dan 18 oed ac

- (i) sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 22(1) o Ddeddf 1989,
- (ii) sy'n blentyn perthnasol o fewn ystyr adran 23A o Ddeddf 1989,
- (iii) sy'n gymwys i gael cyngor a chymorth o dan adran 24(1A) neu adran 24(1B) o Ddeddf 1989,
- (iv) sydd wedi ei leoli mewn ysgol yn unol â datganiad o anghenion addysgol arbennig a wnaed o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996(1) ac sy'n enwi'r ysgol, neu
- (v) y mae arno angen llety er mwyn bodloni anghenion gofal parhaus; a

(b) i berson o dan 21 oed a oedd, yn union cyn ei ben-blwydd yn ddeunaw oed, yn berson a oedd yn dod o fewn un o is-gategoriâu is-baragraff (a).

(4) Nid yw cyfrifoldeb Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol o dan y rheoliad hwn yn ymestyn i'w swyddogaethau mewn perthynas â gwasanaethau meddygol sylfaenol, gwasanaethau deintyddol sylfaenol, gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau offthalmig cyffredinol.

- (c) where the person's usual address cannot be determined under sub-paragraphs (a) and (b) above, he or she is to be treated as usually resident in the area in which the person is present.

Exception to regulation 2(2)

3.—(1) A Local Health Board of origin continues to be responsible for the persons specified in paragraph (3) who have been usually resident in the area for which it is established, in the circumstances set out in paragraph (2).

(2) The circumstances are that —

(a) on or after 1 July 2007

- (i) the Local Health Board of origin has made an arrangement in the exercise of its functions, or
- (ii) a local authority has made an arrangement

by virtue of which a person to whom paragraph (3) applies is provided with services which consist of or include the provision of accommodation situated in the area of another Local Health Board or a Primary Care Trust; and

(b) the person is thereby living in the accommodation.

(3) This paragraph applies

(a) to a person who is under the age of 18 and

- (i) is looked after by a local authority within the meaning of section 22(1) of the 1989 Act,
- (ii) is a relevant child within the meaning of section 23A of the 1989 Act,
- (iii) qualifies for advice and assistance under section 24(1A) or section 24(1B) of the 1989 Act,
- (iv) is placed at a school in accordance with a statement of special educational needs made under section 324 of the Education Act 1996(1) that names the school, or
- (v) requires accommodation to meet continuing care needs; and

(b) to a person under the age of 21 who was, immediately prior to his or her eighteenth birthday, a person within one of the sub-categories of sub-paragraph (a).

(4) The responsibility of a Local Health Board of origin under this regulation does not extend to its functions in relation to primary medical, primary dental, pharmaceutical and general ophthalmic services.

(1) 1996 p.56.

(1) 1996 c.56.

(5) Yn y rheoliad hwn ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol" ("*Local Health Board of origin*") yw'r Bwrdd Iechyd Lleol a wnaeth y trefniant o dan is-baragraff (2)(a)(i) neu'r Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cyfateb i ardal ddaearyddol yr awdurdod lleol a wnaeth y trefniant o dan is-baragraff (2)(a)(ii).

Swyddogaethau i'w harfer gan Fyrddau Iechyd Lleol

4.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 5, ac yn ddarostyngedig i unrhyw waharddiadau neu gyfyngiadau mewn Gorchymyn BILI, y swyddogaethau i'w harfer gan Fwrdd Iechyd Lleol o'r dyddiad perthnasol yw:

- (a) swyddogaethau Awdurdodau Iechyd blaenorol yng Nghymru a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003(1) ac y cyfarwyddwyd Byrddau Iechyd Lleol blaenorol gan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003(2) i'w harfer ar 1 Ebrill 2003; a
- (b) swyddogaethau Gweinidogion Cymru, i'r graddau nad ydynt yn swyddogaethau o dan is-baragraff (a), fel a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(a) yn benodol yn cynnwys y cyfryw swyddogaethau ag a bennir yn yr Atodlen ond nid ydynt wedi eu cyfyngu iddynt.

Cyfyngu ar arfer swyddogaethau gan Fyrddau Iechyd Lleol

5. Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn i'w gymryd fel pe bai'n rhoi cyfarwyddiadau ynghylch arfer unrhyw swyddogaethau a roddwyd i Weinidogion Cymru neu a freiniwyd ynddynt mewn cysylltiad ag —

- (a) gwneud unrhyw Orchymyn neu Reoliadau; neu
- (b) rhoi unrhyw gyfarwyddiadau.

Dirymiadau

6. Dirymir y Rheoliadau a ganlyn —

-
- (1) O.S. 2003/813 (Cy.98). Darparwyd gan y Gorchymyn hwn fod holl swyddogaethau Awdurdodau Iechyd yng Nghymru, o 1 Ebrill 2003, wedi cael eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod pob Awdurdod Iechyd o'r fath wedi ei ddiddymu.
 - (2) Darparwyd gan Reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/150 (Cy.20)) bod, o 1 Ebrill 2003, swyddogaethau Awdurdodau Iechyd blaenorol yng Nghymru, a gafodd eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag O.S. 2003/813 (Cy.98), wedi eu gwneud (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol mewn perthynas â swyddogaethau comisiynu arbenigol) yn arferadwy gan Fyrddau Iechyd Lleol.

(5) In this regulation "Local Health Board of origin" ("*Bwrdd Iechyd Lleol gwreiddiol*") means the Local Health Board which made the arrangement under sub-paragraph (2)(a)(i) or the Local Health Board which corresponds to the geographical area of the local authority which made the arrangement under sub-paragraph (2)(a)(ii).

Functions to be exercised by Local Health Boards

4.—(1) Subject to regulation 5, the functions to be exercised by a Local Health Board as from the relevant date are, subject to any prohibitions or restrictions in a LHB Order:

- (a) functions of former Health Authorities in Wales which were transferred to the National Assembly for Wales by the Health Authorities (Transfer of Functions, Staff, Property, Rights and Liabilities and Abolition) (Wales) Order 2003(1) and which former Local Health Boards were directed to exercise on 1 April 2003 by the Local Health Boards (Functions) (Wales) Regulations 2003(2); and
- (b) functions of the Welsh Ministers insofar as they are not functions under sub-paragraph (a) as are specified in the Schedule.

